| Cynllun Marcio ar gyfer TAG UG CELF A DYLUNIO | | Uned Un Ymholiad Creadigol Personol (Cyfanswm o 160 Marc) | | |
|---|---|---|---|---|
| | **AA1 DEALLTWRIAETH GYD-DESTUNOL** | **AA2 GWNEUD CREADIGOL** | **AA3 COFNODI MYFYRIOL** | **AA4 CYFLWYNO PERSONOL** |
| | ***Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.*** | ***Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.*** | ***Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.*** | ***Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.*** |
| **5** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** |
| | Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol trylwyr o ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth dda o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br><br>Archwilio defnyddiau'n hyderus a rheoli technegau'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Sefydlir perthnasoedd o bwys rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u mireinio'n briodol. | Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion personol ac ystyrlon llawn dychymyg, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn.<br><br>Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol. |
| **4** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** |
| | Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddiad a gwerthusiad rhesymol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth resymol o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br><br>Archwilio defnyddiau a rheoli technegau'n dda i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Sefydlir perthnasoedd rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol. | Gallu rhesymol i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol. |
| **3** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** |
| | Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai agweddau arnynt yn ddwys.<br><br>Peth dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n rhannol berthnasol.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi weithiau gan beth dealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Peth tystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol.<br><br>Peth archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau. | Peth gallu i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol.<br><br>Dangosir peth myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd. | Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd anghyson.<br><br>Peth tystiolaeth o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **2** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** |
| | Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau cyfyngedig.<br><br>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i ddadansoddi'n feirniadol a gwerthuso ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau'n dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun. | Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.<br><br>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig. | Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd. | Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **1** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** |
| | Datblygu syniadau eithriadol o gyfyngedig i'w weld yn achlysurol.<br><br>Gwneir ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i ddadansoddi'n feirniadol ac ystyried ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau'n dangos ymwybyddiaeth eithriadol o gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun. | Tystiolaeth eithriadol o gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae ychydig neu ddim un ohonynt yn briodol.<br><br>Gwneir ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i archwilio defnyddiau a thechnegau.<br><br>Gwneir cysylltiadau eithriadol o gyfyngedig rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau, ac ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i adolygu a mireinio. | Gallu eithriadol o gyfyngedig i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwelediadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi eithriadol o gyfyngedig.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol eithriadol o gyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd. | Gallu eithriadol o gyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd eithriadol o gyfyngedig.<br><br>Tystiolaeth eithriadol o gyfyngedig o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd eithriadol o gyfyngedig. |
| **0** | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

| Cynllun Marcio ar gyfer TAG SAFON UWCH CELF A DYLUNIO | | | Uned Dau Ymchwiliad Personol (Cyfanswm o 160 Marc) | |
|---|---|---|---|---|
| | **AA1 DEALLTWRIAETH GYD-DESTUNOL** | **AA2 GWNEUD CREADIGOL** | **AA3 COFNODI MYFYRIOL** | **AA4 CYFLWYNO PERSONOL** |
| | ***Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.*** | ***Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.*** | ***Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.*** | ***Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.*** |
| **5** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** | **33 – 34 – 35 – 36 – 37 – 38 – 39 - 40** |
| | Datblygu syniadau mewn ffordd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chynhwysfawr cydlynol.<br><br>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig trylwyr a chraff yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol, gan gynnwys defnydd craff a thrwyadl o eirfa arbenigol briodol.<br><br>Ymatebion a dehongliadau aeddfed a chynhwysfawr wedi'u cyfoethogi'n gyson gan ddealltwriaeth dda iawn o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau cysylltiedig. | Tystiolaeth soffistigedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br><br>Caiff defnyddiau eu harchwilio'n drylwyr a hyderus a thechnegau eu rheoli'n hynod o fedrus i fanteisio'n llawn ar eu potensial creadigol.<br><br>Sefydlir perthnasoedd pwysig a chraff rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n barhaus a'u mireinio'n sensitif. | Gallu soffistigedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr a chydlynol.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd graff a chydlynol.<br><br>Cysylltiadau pwysig a chraff rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd hynod o argyhoeddiadol. |
| **4** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** | **25 – 26 – 27 – 28 – 29 – 30 – 31 - 32** |
| | Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol, gan gynnwys defnydd trwyadl o eirfa arbenigol briodol.<br><br>Ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth dda o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br><br>Caiff defnyddiau eu harchwilio'n hyderus a thechnegau eu rheoli'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Sefydlir perthnasoedd o bwys rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n fynych a'u mireinio'n briodol. | Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon iawn, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn.<br><br>Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol. |
| **3** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** | **17 – 18 – 19 - 20 – 21 – 22 – 23 – 24** |
| | Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan, gan gynnwys defnydd rhesymol o eirfa arbenigol.<br><br>Ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br><br>Archwilir defnyddiau a rheolir technegau yn rhesymol i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Sefydlir perthnasoedd rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol. | Gallu rhesymol i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol. |
| **2** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** | **9 – 10 – 11 – 12 – 13 – 14 – 15 - 16** |
| | Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai ohonynt yn ddwys.<br><br>Peth dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig o rai ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill, gan gynnwys peth defnydd o eirfa arbenigol.<br><br>Mae ymatebion a dehongliadau weithiau wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Peth tystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol.<br><br>Peth archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau. | Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.<br><br>Dangosir peth myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd. | Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd anghyson.<br><br>Rhai cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** | **1 – 2 – 3 – 4 – 5 – 6 – 7 - 8** |
| | Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig cyfyngedig; prin iawn yw'r cyfeiriadau at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill; defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol.<br><br>Ymatebion a dehongliadau cyfyngedig wedi'u cyfoethogi'n rhannol gan ddealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun. | Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.<br><br>Ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br><br>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu i ryw raddau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig. | Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.<br><br>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd. | Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

***Asesu ysgrifennu estynedig**:* **rhaid** *cynnwys* **400 gair o leiaf** *o ysgrifennu estynedig yn dystiolaeth ar gyfer* **AA1***. Gan ddibynnu ar natur yr ymchwiliad, gellir darparu ysgrifennu estynedig yn dystiolaeth hefyd ar gyfer AA2, AA3 a/neu AA4 (fel y bo'n briodol). Yn achos AA2, AA3 a/neu AA4, rhaid cyflwyno'r ysgrifennu estynedig mewn adrannau o* **200 gair o leiaf***. Pa bynnag ffurf a ddefnyddir ar gyfer ymatebion ysgrifenedig, mae'r* ***lleiafswm o 1000 gair*** *yn berthnasol ym mhob achos.*

| Cynllun Marcio ar gyfer TAG SAFON UWCH CELF A DYLUNIO | | | Uned Tri Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Cyfanswm o 100 Marc) | |
|---|---|---|---|---|
| | **AA1 DEALLTWRIAETH GYD-DESTUNOL** | **AA2 GWNEUD CREADIGOL** | **AA3 COFNODI MYFYRIOL** | **AA4 CYFLWYNO PERSONOL** |
| | ***Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.*** | ***Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.*** | ***Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.*** | ***Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.*** |
| **5** | 21 – 22 – 23 – 24 - 25 | 21 – 22 – 23 – 24 - 25 | 21 – 22 – 23 – 24 - 25 | 21 – 22 – 23 – 24 - 25 |
| | Datblygu syniadau mewn ffordd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chynhwysfawr cydlynol.<br>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol craff a thrylwyr yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol.<br>Ymatebion a dehongliadau aeddfed a chynhwysfawr wedi'u cyfoethogi'n gyson gan ddealltwriaeth dda iawn o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau cysylltiedig. | Tystiolaeth soffistigedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br>Caiff defnyddiau eu harchwilio'n drylwyr a hyderus a thechnegau eu rheoli'n hynod o fedrus i fanteisio'n llawn ar eu potensial creadigol.<br>Sefydlir perthnasoedd pwysig a chraff rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n barhaus a'u mireinio'n sensitif. | Gallu soffistigedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr a chydlynol.<br>Dangosir myfyrio beirniadol craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd graff a chydlynol.<br>Cysylltiadau pwysig a chraff rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd hynod o argyhoeddiadol. |
| **4** | 16 – 17 – 18 – 19 - 20 | 16 – 17 – 18 – 19 - 20 | 16 – 17 – 18 – 19 - 20 | 16 – 17 – 18 – 19 - 20 |
| | Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol trylwyr yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol priodol a ffynonellau priodol eraill.<br>Ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth dda o ddewis yr adnoddau, cyfryngau a phrosesau mwyaf priodol.<br>Caiff defnyddiau eu harchwilio'n hyderus a thechnegau eu rheoli'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br>Sefydlir perthnasoedd o bwys rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n fynych a'u mireinio'n briodol. | Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr.<br>Dangosir myfyrio beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon iawn, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn.<br>Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol. |
| **3** | 11 – 12 – 13 – 14 - 15 | 11 – 12 – 13 – 14 - 15 | 11 – 12 – 13 – 14 - 15 | 11 – 12 – 13 – 14 - 15 |
| | Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol rhesymol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan.<br>Ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.<br>Archwilir defnyddiau a rheolir technegau yn rhesymol i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br>Sefydlir perthnasoedd rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol.<br>Mae cyfannu elfennau ffurfiol yn dangos dealltwriaeth a chymhwyso. | Gallu rhesymol i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol.<br>Dangosir myfyrio beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd. | Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br>Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol. |
| **2** | 6 – 7 – 8 – 9 - 10 | 6 – 7 – 8 – 9 - 10 | 6 – 7 – 8 – 9 - 10 | 6 – 7 – 8 – 9 - 10 |
| | Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai ohonynt yn ddwys.<br>Peth dadansoddi a gwerthuso beirniadol o rai ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill.<br>Mae ymatebion a dehongliadau weithiau wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau. | Peth tystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol.<br>Peth archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol .<br>Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau. | Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.<br>Dangosir peth myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd. | Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd anghyson.<br>Rhai cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | 1 – 2 – 3 – 4 - 5 | 1 – 2 – 3 – 4 - 5 | 1 – 2 – 3 – 4 - 5 | 1 – 2 – 3 – 4 - 5 |
| | Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol cyfyngedig; prin iawn yw'r cyfeiriadau at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.<br>Ymatebion a dehongliadau cyfyngedig wedi'u cyfoethogi'n rhannol gan ddealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun. | Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.<br>Ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.<br>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu i ryw raddau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig. | Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.<br>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd. | Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | **0**<br>Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |